Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **OPCC Conf. Room** |
| **Dyddiad:** | **4 Gorffennaf 2017** |
| **Amser:** | **14:00 – 16:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Mr Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau (HT)<br>DS Sian Davies, Swyddog Staff (DS SD)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arol. Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>PC Stuart Davies, Swyddog Staff Dros Dro (PC SD) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/06/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 2178** | **Ffocws ar Ystadau yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 4/7/2017.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2179** | **Cynnal grŵp ffocws er mwyn helpu i ddarparu cyfle i uwch swyddogion a staff i roi adborth ar Strwythurau Llywodraethu.** | **Parhaus** |
| **PB 2180** | **Rhannu copi o ddogfen Cymru Gyfan â SCHTh cyn ei chyflwyno.** | **Cwblhawyd** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 04/07/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 38** | **Penderfyniad: Yn seiliedig ar y costau a ddarparwyd, cytunwyd i barhau â'r dewis mwyaf cost effeithiol o'r ddau, sef cyflwyno'r Cynllun Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch yn fewnol.** | |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 23 Mehefin a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion o'r BP diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol.

PB 2173: Roedd CM wedi cwrdd â Cath Griffith mewn perthynas â'r swyddogaeth Plismona Bro. Holodd y DBG y CHTh pa un ai a oedd yn ymwybodol o'r penderfyniad i greu Cydlynydd Dinasyddion a Phlismona ar gyfer Cymru. Dywedodd y DBG na fyddai llawer o oblygiadau ariannol ar gyfer HDP ac y byddai'r manteision yn sylweddol. Mae'r pedwar heddlu yng Nghymru wedi ymrwymo i hyn.

PB 2174: CM o gwrdd â Phennaeth Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn trafod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Dywedodd y CHTh bod cyflwyno'r wefan wedi bod yn siomedig oherwydd bod y dyddiad amcangyfrifol ar gyfer ei chwblhau yn cael ei wthio yn ôl o hyd. Cadarnhaodd y DBG y byddai'n codi'r mater â Phennaeth Cyfathrebu Corfforaethol yn eu cyfarfod ar 6 Gorffennaf 2017.

PB 2175:Roedd SR wedi holi ynghylch gwerthuso'r gwasanaeth Brysbennu Iechyd Meddwl a gomisiynwyd gan Hywel Dda. Roedd Swyddog Cymorth Iechyd Meddwl yr Heddlu wedi cadarnhau ei bod hi'n cwrdd â chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Hywel Dda i drafod y gwerthusiad ac y byddai'n rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod hwn.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

<u>Diweddariad Gweithredol</u>

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas ag ymosodiad ar swyddogion mewn cerbyd heddlu yn Nhyddewi, a holodd y CHTh am les y swyddogion yn dilyn yr ymosodiad. Holodd y CHTh am unigolyn a oedd wedi dioddef ymosodiad yng Nghaerfyrddin.

<u>Diweddariad Sefydliadol</u>

Dywedodd y DBG bod camerâu fideo a wisgir ar y corff dal yn cael eu cyflwyno. Cadarnhaodd y DBG bod yr Heddlu'n ystyried treialu crudau camera mewn ceir heddlu i recordio darnau o ffilm drwy'r ffenestr flaen. Diweddarodd y DBG y CHTh ynghylch Ymgyrch Snap lle'r oedd aelodau o'r cyhoedd yn rhoi ffilm a recordiwyd ar eu camerâu dashfwrdd i'r heddlu.

Diweddarodd y DBG y Bwrdd ar ganlyniad y Bwrdd Arolygwyr. Byddai trafodaeth yn cael ei chynnal yn y Grŵp Prif Swyddogion ar 4/7/17 mewn perthynas â mynegiannau o ddiddordeb ar gyfer pennaeth CID. Dywedodd y DBG y byddai PINAC yn cael ei gynnal rhwng 16 a 24 Hydref.

## 4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

<u>Cenedlaethol</u>

Roedd SCHTh wedi anfon gohebiaeth at y Gweinidog Plismona newydd mewn perthynas â'r fformiwla ariannu, fodd bynnag, nid oedd y Swyddfa Gartref wedi ymateb i hyn. Gofynnwyd i'r PSA ofyn am wybodaeth ynghylch beth fyddai effaith setliad cyflog o 1% ar gyfer gweithwyr cyhoeddus, a sut y byddai'n effeithio ar gyllideb HDP.

Cynhelir cyfarfod nesaf Grŵp Cymru Gyfan ddydd Llun. Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ar sgwrs gydag Alun Michael mewn perthynas â chyfle i secondio unigolyn i weithio ochr yn ochr â Bob Evans.

<u>Lleol</u>

Hysbysodd y CHTh y Bwrdd fod SCHTh wedi cynnal Diwrnod i Ffwrdd ddydd Iau 29 Mehefin. Mynychodd y CHTh Gyflwyniad y Swyddfa Gartref mewn perthynas ag ymagwedd y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd tuag at gwynion gydag aelod arall o staff SCHTh. Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei gwblhau gan y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Adran Safonau Proffesiynol. Dywedodd y CHTh bod tua 160 o achosion hanesyddol yn cael eu trin gan yr Adran Safonau Proffesiynol. Dywedodd y CHTh wrth y Bwrdd fod SCHTh wedi mabwysiadu model gweithio newydd o dan y acronym 'PICK a SAND' mewn perthynas â dwyn materion ymlaen i'r Bwrdd Plismona. 'PICK a SAND' yw'r dull ar gyfer dewis rhestr fer o ran craffu ar faterion cyn cyfarfodydd Bwrdd Plismona. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â materion posibl y gellir eu dwyn i'r Bwrdd Plismona, gan gynnwys Ailhyfforddi Gyrwyr.

**5. Pwnc y Mis: Ystadau**

Dywedodd y CHTh fod y Seminar Ystadau wedi'i gynnal ar 12 Mehefin 2017. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chamau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod hwnnw mewn perthynas â gorsafoedd heddlu Llanelli ac Aberhonddu. Dywedodd y CHTh fod yr amserlenni ar gyfer y camau gweithredu'n hollbwysig er mwyn symud trafodaethau ymlaen mewn perthynas â safle Penprys.

**Cam Gweithredu: Trafodaethau mewn perthynas â gwaith ystadau yn Llanelli ac Aberhonddu i gael eu cynnal yn y Bwrdd Ystadau ar 5/7/17 ac adroddiadau ffurfiol ar y prosiectau hynny i gael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BP.**

Cafwyd trafodaeth i ddilyn, dan arweiniad y DBG, mewn perthynas â Strategaeth Plismona Cyffredino wedi'i alinio â'r Weledigaeth Blismona ar gyfer 2025 a phlismona yn yr oes ddigidol. Dywedodd y DBG fod angen i HDP greu Gweledigaeth yr Heddlu ar gyfer 2025 a chafwyd trafodaeth ynghylch gorsafoedd HDP a sut y byddent yn gweithio gyda Gweledigaeth yr Heddlu ar gyfer 2025. Dywedodd y CHTh y byddai amrywiaeth yn ffactor bwysig i'w hystyried ar gyfer Gweledigaeth Blismona 2025 a chyfeiriodd at Ddogfen Llywodraeth Cymru am y Dyfodol.

Cafwyd trafodaeth fer iawn mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n ymwneud â gorsafoedd HDP yn Sir Benfro. Cafwyd trafodaeth hirach mewn perthynas â darpariaeth dalfeydd ym Mhowys a sut yr oedd daearyddiaeth a lleoliad phoblogaeth Powys yn effeithio ar benderfyniadau posibl. Dywedodd HT y byddai gofynion gweithredol yr Heddlu hefyd yn effeithio ar benderfyniadau posibl. Cydnabu'r DBG bod y penderfyniadau ynghylch Aberhonddu a Phenprys yn hollbwysig. Cafwyd trafodaeth ynghylch triongl dalfeydd Llanelli, Rhydaman ac Aberhonddu. Trafododd y CHTh, DBG a HT ymarferoldeb

a rhinweddau'r lleoliadau hyn. Dywedodd HT bod angen dogfen sy'n crynhoi gofynion cwsmeriaid er mwyn creu'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer dalfa yn Aberhonddu.

Awgrymodd y CHTh y dylid cynnal Cyfarfod Ystadau ymhen pythefnos i adolygu'r materion a drafodwyd yn y BP ar 4/7/17.

Gadawodd HT y cyfarfod.

**6. Materion i'w Hystyried**

**a. Yr heddlu i roi costau hyfforddi a chynllun blaenoriaethu i'r Bwrdd ymhen 4 – 6 wythnos.**

Tynnodd y DBG sylw at y cynnig croesiad y byddai darparwyr allanol yn cael eu cyflogi iddo er mwyn lleihau'r ôl-groniad a brofir gan y Tîm Iechyd a Diogelwch, a chyflogi aelod staff ychwanegol. Dywedodd y DBG y byddai cyfarfod Iechyd a Diogelwch yn cael ei gynnal o fewn yr wythnos nesaf ac y byddai angen tua 3-5 mlynedd i gwblhau'r gwaith hyfforddi sy'n ofynnol gan yr Heddlu.

**Penderfyniad: Yn seiliedig ar y costau a ddarparwyd, cytunwyd i barhau â'r dewis mwyaf cost effeithiol o'r ddau, sef cyflwyno'r Cynllun Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch yn fewnol.**

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch newidiadau rota HDP ac effeithlonrwydd y rotâu newydd.

**b. Uned Arfau Saethu**

Tynnodd y CHTh sylw at wyth achos Adran Safonau Proffesiynol lle'r oedd aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn aros am benderfyniad ynglŷn â'u trwyddedau arfau saethu. Cafodd y CHTh a HDP drafodaeth fer mewn perthynas â'r oedi o ran prosesu trwyddedau arfau saethu.

**7. Unrhyw Fusnes Arall**

Dywedodd y CHTh ei fod wedi cwrdd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac wedi rhoi gwybodaeth i'r CHTh am y cyfarfod. Mae'r PG wedi cwrdd â'r rheolwr rhanbarthol ar gyfer Crimestoppers.

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch ailhyfforddi gyrwyr ar ddiwedd y cyfarfod mewn perthynas â sut y byddai cost rhaglenni ailhyfforddi gyrwyr yn effeithio ar HDP.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 04/07/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud yn ei flaen gan** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 2181** | **Trafodaethau mewn perthynas â gwaith ystadau yn Llanelli ac Aberhonddu i gael eu cynnal yn y Bwrdd Ystadau ar 5/7/17 ac adroddiadau ffurfiol ar y prosiectau hynny i gael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BP.** | **DBG** |